

Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cyfarfod 3 Ebrill 2018 Nodiadau a Chamau Gweithredu

Yn bresennol

Rachel McCall (RM) SUDG, Mark Russell (MR) BMAPA, Lisa Philips (LP) CNC, Emma Barton (EB) RYA, Rosie Kelly (RK) Ystâd y Goron, Robert Carington (RC) UK CoS, Neville Rookes (NR) CLILC, Wendy Dodd (WD) Tidal Lagoon Power, Clare Reed (CR) MCS UK, Stephen Jay (SJ) Prifysgol Lerpwl, Lucy Taylor (LT) SEP, David Jones (DJ) PCF, John Hamer (JPH) LIC (Cadeirydd), Sarah Bound (SB) LIC, Phil Coates (PJC) LIC, Lee Murray (LM) CNC, Adrian Judd (AJ) CEFAS

Croeso a chyflwyniadau

Cyflwynwyd Sarah Bound fel rheolwr prosiect.

Eitem 2 Nodiadau a chamau gweithredu ers y cyfarfod diwethaf - Papur 7

Cam Gweithredu 1 - JPH i holi Julia Hunt am Gamau Gweithredu ers y cyfarfod diwethaf (**AD** i rannu adborth cyfarfod ICZM pan fydd yn barod)

Cam Gweithredu 2 – Wedi'i gwblhau. Ni chafodd AJ unrhyw sylwadau i'w bapur tystiolaeth.

Eitem 3 – Diweddariad - Papur 2

Cafwyd diweddariad am ddigwyddiadau ymgynghori lleol a'r gynhadledd genedlaethol.

DJ – Hapus iawn gyda'r niferoedd.

JPH – Slido wedi creu cryn argraff, sesiynau defnyddiol iawn, LIC i ymateb i'r cwestiynau a godwyd.

CR - Gweithdai da iawn, wedi'u hwyluso'n dda. Awgrymwyd y gallem fod wedi crynhoi'r cyflwyniad er mwyn cael trafodaethau grŵp hirach, gan fod yn grŵp eisoes yn hyddysg iawn. Nid oedd y sain yn dda yn ystod sesiynau'r gweithdy.

NR - Roedd trafodaeth rhwng y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithredu, y Gynhadledd a'r Senedd yn tynnu sylw at sawl mater/problem y gall fod angen i'r tîm cynllunio ymateb iddynt a sicrhau bod eu hymateb ar gael.

DJ – Mae PCF wedi cyflwyno adroddiad i LIC gan gynnwys adborth o'r gynhadledd.

Cam Gweithredu 3 – **SB** i sicrhau bod adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac ymateb LIC ar gael ar y wefan.

Cwestiynau Slido y gynhadledd ac ymatebion LIC (fel diweddariad) i'w hychwanegu maes o law.

Cam Gweithredu 4 – Patrick Cowdy (**PC**) LIC i rannu adroddiad PCF i'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

AJ – Rhoi sicrwydd i bawb y byddai'r cwestiynau a ofynnwyd yn y gweithdai yn cael eu cyflwyno ac y gweithredir arnynt.

JPH - Roedd dadl y Senedd ar 9 Ionawr yn un ddefnyddiol iawn, anogwyd pawb i ddarllen y cofnod.

WD – Cynhaliodd Pwyllgor CCERA sesiwn gaeedig pan wahoddwyd arbenigwyr i'w briffio ar Gynllunio Morol. Yna, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy i randdeiliaid er mwyn casglu adborth penodol ar fersiwn ddrafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru i'w adrodd yn ôl i Ysgrifennydd y Cabinet.

MR – Roedd gweithdy'r pwyllgor yn ddefnyddiol dros ben, ac roedd hi'n braf gweld faint o wybodaeth oedd gan y pwyllgor am y pwnc. Mae **MR** wedi anfon dogfen y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithredu ymlaen at glerc y pwyllgor fel ei fod yn ymwybodol o'r gwaith sy'n mynd ymlaen yn y cefndir.

CR – Gallai'r trafodaethau grŵp yr oedd **CR** yn rhan ohonynt fod yn fwy trefnus.

SJ – Dywedodd y gallai MMO gynnal cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus, a gofynnodd a ydyn ni wedi cysylltu â nhw am y gwersi a ddysgwyd.

AJ – Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â MMO.

DJ – Dylem ehangu hyn i gysylltiadau â'r Alban.

Cam Gweithredu 5 – Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd ar effeithiolrwydd digwyddiadau ymgysylltu yn cael ei rannu â'r MMO. Parhaus.

Eitem 4 Ymatebion i'r ymgynghoriad

SB – Cadarnhaodd fod tua 100 o ymatebion wedi cyrraedd, llawer yn sylweddol.

NR – Mae'r cynllun yn cyflwyno ei fwradau ar gyfer llywio gweithgareddau ar gyfer grwpiau defnyddwyr gwahanol (e.e. datblygwyr / penderfynwyr). Awgrymu cynnal sesiynau wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar anghenion penodol er mwyn helpu i wireddu'r cynllun.

CR - Roedd y ffurflen ymateb yn anodd ei defnyddio.

JPH – Rhannwyd y ffurflen ymateb ddrafft er mwyn cael sylwadau. Cytunwyd y byddai'n bwysig cipio atebion awgrymog wrth ystyried ymatebion yn hytrach nag ystadegau 'cytuno/anghytuno' syml.

Cam Gweithredu 6 - EB – anfon sylwadau golygyddol penodol ar y cynllun drafft er mwyn ategu'r ymateb cyffredinol.

Eitem 5 Gweithio gydag Ardaloedd Adnoddau Strategol – Papur 1

JPH – Cyflwynodd bapur ac awgrymu ei fod yn cael ei ddefnyddio wrth i ymatebion ymgynghori gael eu hystyried a'u datblygu wrth ddatblygu'r cynllun.

CR - Cyflwynodd **PC** y pwnc SRA yn dda iawn yn y Gynhadledd. Byddwn yn croesawu cynnwys negeseuon allweddol ym mhapurau'r SRA

WD – Yn cytuno ei bod hi'n werth dychwelyd at bapurau SRA yn wyneb yr ymatebion ymgynghori.

LP – Angen meddwl am rolau a chyfrifoldebau, pwy sydd angen mynd drwy'r broses, angen i'r broses fod yn glir a chryno.

Cam Gweithredu 7 JPH/LS – Dod â 2 bapur SRA (negeseuon allweddol "beth yw SRAs" a chanllawiau gweithiol) i drafodaethau'r dyfodol.

Eitem 6 Gwerthfawrogi ardal forol Cymru – twf glas a dealltwriaeth o lesiant

AJ - Pwysleisiodd yr angen i ddefnyddio a dilyn y ddeddfwriaeth a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Awgrymwyd trafodaeth grŵp ar gymhwysio amcanion llesiant a Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol.

Pawb – Yn cytuno.

NR - Mae mantais dros ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i siapio'r dull hwn yn hytrach na chyfeirio at ymarferiad ticio bocsys yn seiliedig ar y nodau hyn. Bydd y 5 ffordd o weithio hyn yn helpu i gyrraedd y nod.

CR – Yn ddiweddar, pwysleisiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yr angen i fodloni'r 7 nod llesiant yn gyfartal.

WD – Gorgyffwrdd yn dda ag 8 Egwyddor Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (ICZM).

Cam Gweithredu 8 AJ i fireinio cwmpas y papur a'i rannu; **CR, WD** ac **NR** i ystyried y papur ar gynnwys gwerthoedd llesiant a thwf Glas erbyn 2il wythnos Mehefin.

Eitem 7 Y camau nesaf – mabwysiadu'r cynllun - Papur 3

JPH – Pwysleisiodd y lefel uchel o waith ymgysylltu a rhyngweithio yr ydym wedi'i wneud ac y byddwn yn parhau i wneud. Ydy'r grŵp yn hapus i nodi'r "materion allweddol" fel pynciau trafod pellach gan y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid?

WD – Ydy, er bod angen i holl aelodau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei drafod ar lefel grŵp hyd yn oed os nad ydyn nhw'n aelod o'r grŵp hwnnw.

LP – Ydy, nodi prif bynciau/themâu'r ymatebion ymgynghori cyn adrodd yn ôl i'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

MR – Nododd y byddai hyn yn heriol, gan ei fod hyd yn oed yn heriol gyda grwpiau bach. Awgrymodd aelodau'r grŵp y dylid cynnal sesiynau cefn wrth gefn ar yr un diwrnod er mwyn gwneud yn fawr o'r amser; hefyd ystyried ffôn-gynadledda fel ffordd amgen i gynnal cyfarfod rhwng grwpiau bach.

RM – Cynnal trafodaethau un i un gyda'r arweinwyr polisi yn uniongyrchol cyn sefydlu unrhyw fath o grŵp fel bod unrhyw broblemau'n cael eu datrys yn gyntaf.

NR - Oes unrhyw ffordd o gyfrannu mwy at grwpiau eraill - WMAAG / WMFAG / Sbwriel y Môr / Arfordiroedd a Moroedd ac ati? Allwch chi friffio cyn y cyfarfod er mwyn cynnwys aelodau, fel y gallwn gael trafodaeth yn hytrach na diweddariad yn y cyfarfod?

PJC - Mae'n rhaid i adroddiadau i'r grwpiau fod yn gyffredinol eu natur, er y gallant ymuno â Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru os hoffent gyfrannu at drafodaethau manwl.

CR – Bydd gan randdeiliaid fwy o ddiddordeb mewn mynychu gweithdy penodol ar gyfer maes penodol o'r Cynllun Morol

JPH - Mae'r tîm yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ehangach a chysylltiedig.

Cam Gweithredu 9 JPH a SB – Ystyried prif themâu'r ymgynghoriad, a pharatoi papur sy'n cyflwyno'r cynigion ar gyfer gweithdai. **Erbyn 25/04/2018**

Cam Gweithredu 10 SB – nodi'r pynciau/themâu. **Erbyn 25/04/2018**

Eitem 8 Monitro a gwerthuso – Papur 4

JPH – Ymddiheurodd nad oeddem yn gallu rhannu hwn yn y cyfnod ymgynghori. Roedd Julie Hunt ac eraill wedi bod yn ystyried yr opsiynau gan gynnwys adolygu beth oedd MMO ac eraill wedi'i wneud.

NR – Mae angen i ni fonitro a gwerthuso beth yn union sydd angen ei fonitro a'i werthuso, nid dim ond beth rydyn ni'n gallu ei fonitro a'i werthuso.

Cam Gweithredu 11 JPH – ychwanegu fel egwyddor newydd i'r papur.

NR – Os ydyn ni wrthi'n casglu data nad oes ei angen ar gyfer y cynllun, yna oes angen i ni barhau?

JPH – Oes, oherwydd efallai y bydd ei angen dan ddeddfwriaeth / polisi arall neu yn unol â dyheadau hirdymor.

CR – Allwn ni gyflwyno'r dyheadau tymor hir yn y papur, y gwyddom nad ydynt yn bosib yn y tymor byr? Awyddus i gael sylwadau pellach ar y papur wedi'r cyfarfod.

Cam Gweithredu 12 LS yn cyflwyno dyheadau tymor hir yn y papur.

EB - Angen egluro beth ydych chi'n ei olygu wrth weithgareddau trwyddedig – ai'r holl weithgareddau a ganiatawyd neu dim ond gweithgareddau morol trwyddedig? Mae angen newid pwynt d) yn y papur trwy roi mwy o bwyslais ar awdurdodau trwyddedu eraill, gyda mwy o sylw ar Gynllunio. Mae Morlyn Abertawe yn enghraifft dda.

WD – Byddai'n annog ystyried trwyddedau ehangach e.e. dan DCO ac NSIP. O ran yr Atodiad, yn hapus gydag asesiadau ansoddol o "ddangosyddion meddalach" yn ogystal â'r rhai meintiol.

Cam Gweithredu 13 LS – i gymryd camau ynghylch sylwadau o dan Eitem 8, ystyried trwyddedau nad ydynt yn rhai morol a chyrff cydsynio eraill. Cysylltu ag **EB, WD, NR** awdurdod porthladdoedd a chyrff eraill sy'n rhoi cydsyniad o ran trwyddedau nad ydynt yn rhai morol. Dim dyddiad pendant ond mae angen gwneud hyn er mwyn gallu ymgynghori â SRG yna cyhoeddi'r papur.

Eitem 9 Cynllunio gweithredu - Papur 5

PJC – Cyflwyno'r eitem a sôn wrth y grŵp am y meysydd gwaith sydd eu hangen er mwyn helpu i ddarparu

JPH – Sefydlu Grŵp Awdurdod Cyhoeddus yn fuan. Gwaith tystiolaeth yn mynd rhagddo.

CR – Hoffai gael adborth ar y papur gan na chafodd amser i'w ystyried yn llawn cyn y cyfarfod.

WD – Canllawiau Gweithredu – mabwysiadu wedi'r cynllun – ai'r bwriad yw peidio â drafftio canllawiau cyn mabwysiadu?

JPH – Rhagwelwn y bydd y canllawiau gweithredu yn thema sy'n codi o'r ymgynghoriad e.e. efallai bod angen ystyried cynnwys y cynllun yn fanylach, beth sy'n cyd-fynd â'r cynllun, ac amseriad y gwaith cynhyrchu.

Cam Gweithredu 14 Pawb i roi adborth ar Bapur Gweithredu'r Cynllun – **Dyddiad cau 25/04/2018**

Eitem 10 Diweddariad cynllunio is-genedlaethol

JPH – Cwestiwn yn yr ymgynghoriad parthed gwerth mewn cynllunio is-genedlaethol. Cafodd darn o waith ei gontractio i Iwan Ball (**IB**) i adolygu arferion gorau a gwneud argymhellion. Neges gyffredinol yr ymgynghoriad oedd gweld sut mae'r Cynllun Morol Cenedlaethol yn datblygu. Bwriad LIC i wneud hynny, fodd bynnag, os yw'r cyfle deddfwriaethol yn codi – gall CSEPRFA fanteisio ar y cyfle i sicrhau bod y pwerau'n rhai priodol.

Cam Gweithredu 15 JPH – dosbarthu adroddiad **IB** i'r grŵp. Ychwanegu'r adroddiad at Agenda Cyfarfod nesaf y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid **Erbyn 25/04/2018**

Eitem 11 Diweddaraf am brosiect EMFF IMP

Rhoddodd **LM** y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am hynt prosiect EMFF fel y nodwyd ym mhapur 6. Dim sylwadau.

Eitem 12 Cyfarfodydd a ffocws y grŵp yn y dyfodol

Cam Gweithredu 16 Pawb Cynnig eitemau ar gyfer yr agenda ac ystyried sut i wneud y mwyaf o'r cyfarfodydd, gan gynnwys gwahodd cynrychiolwyr o grwpiau/sefydliadau eraill i fod yn bresennol a hefyd gwahodd cydweithwyr i siarad a mynychu cyfarfodydd y dyfodol.

Unrhyw fater arall

EB – Bydd yn gadael RYA ganol Mehefin i ddechrau swydd newydd gyda DEFRA.

Dymunodd **JPH** yn dda iddi ar ran y grŵp.

CR – RSPB CYMRU wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

MR – Mae'r cyfarfod hwn wedi pwysleisio cymaint sy'n digwydd, a gofynnodd a oes gennym ddigon o allu i gyflawni pethau? Angen i ni weithio ar sail blaenoriaeth. Cytunwyd.

Cam Gweithredu 16 Dim gwrthwynebiad gan y grŵp i wahodd RSPB CYMRU - **JPH** i anfon gwahoddiad.